1968-2008 40
Gwarchod Glöynnod Byw
40 mlynedd o achub glöynnod byw, gwyfynod a'u cynefinoedd

MOTHS COUNT

Sut i ddechrau "gwyfyna"

(chwilio am wyfynod a'u cofnodi)

Pam?
Mae gwyfynod yn fwy niferus o lawer na glöynnod byw ac maent yn fwy amrywiol o bell ffordd. Mae dysgu am y llu o rywogaethau sy'n byw yn eich ardal chi'n hobi diddorol a hudolus. Mae gwyfynod wedi derbyn llawer llai o sylw na glöynnod byw hefyd, ac o ganlyniad rydym yn gwybod llai amdanynt ac am y mannau lle rydynt yn byw. Mae hyn yn golygu bod y wybodaeth y byddwch **chi** yn ei chasglu am eich gwyfynod lleol yn gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr at ein gwybodaeth a helpu cadwraeth yn uniongyrchol.

Gan fod gwyfynod mor amrywiol a mor niferus mae'r wybodaeth amdanynt yn werthfawr hefyd oherwydd, yr un fath â'r caneri yn y pwll glo, maent yn dangos inni gyflwr iechyd ein hamgylchedd. Dyma un o'r rhesymau pam mae Cyfrif Gwyfynod am i bobl o bob oedran, ledled y wlad, ymddiddori yn yr holl fathau gwahanol o wyfynod sydd o'u cwmpas, fel y gallwn ni i gyd weithredu fel "dinasyddion-wyddonwyr" yn helpu i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o fywyd gwyllt a'r amgylchedd.

Ble?
Fe ddewch chi o hyd i wyfynod ymhob man bron, nid yng nghefn gwlad yn unig ond mewn gerddi, parciau mewn trefi a chlytiau o dir diffaith, hyd yn oed yn y dinasoedd mwyaf prysur. Mae rhai rhywogaethau i'w cael mewn cynefin arbennig yn unig neu o gwmpas planhigion penodol, tra bod eraill yn gyffredin iawn. Fe allai mwy na chant o rywogaethau fod yn byw yn eich gardd gefn neu yn y parc agosaf, a dyma'r lleoedd gorau felly ichi ddechrau chwilio.

Pryd?
Mae gwyfynod i'w gweld trwy gydol y flwyddyn, er bod gwahanol rywogaethau'n fwy cyffredin ar dymhorau gwahanol, ac yn yr haf y gwelir yr amrywiaeth fwyaf. Os ydych chi am weld pob math o wyfyn sy'n byw yn eich gardd chi, bydd angen ichi fod ar wyliadwriaeth gydol y flwyddyn. Mae gwyfynod yn fwy gweithgar, ac yn fwy tebyg o gael eu gweld felly, ar nosweithiau mwyn tawel cymylog. Nid ydynt yn hoff o nosweithiau oer, glaw trwm na gwyntoedd cryfion. Os defnyddiwch chi olau i ddenu gwyfynod, bydd hyn yn fwy llwyddiannus ar nosweithiau dileuad.

Pwy?
Un o'r pethau gwych ynghylch gwyfynod, yn wahanol i'r rhan fwyaf o rywogaethau gwyllt, yw bod bron unrhywun, yn hen neu'n ifanc, yn gallu'u gweld o agos. 'Does dim angen prynu cyfarpar costus na theithio; 'does dim rhaid ichi fyw yng nghefn gwlad na bod â gardd fawr; 'does dim rhaid ichi fod yn heini nac yn egnïol dros ben; 'does dim angen ichi fentro ymhell o ddrws cefn eich cartref, ac mae rhai gwyfynod yn fodlon dod atoch chi hyd yn oed os gadewch chi'r llenni neu'r ffenestr ar agor!

Sut?
Gellir defnyddio sawl dull o ddenu gwyfynod lawn dwf, heb eu lladd na'u hanafu mewn unrhyw ffordd.

1. Blodau a ffrwythau
Mae'r rhan fwyaf o'r blodau sy'n denu glöynnod byw hefyd yn denu gwyfynod, sy'n dod i ymborthi ar y neithdar yn ystod y dydd neu'r nos. Mae'r blodau sy'n arbennig o ddeniadol i wyfynod yn cynnwys rhai'r gynffon las (cwt yr oen), triaglog goch, grug, helyg ac eiddew (iorwg). Rhowch gynnig ar chwilio ymhlith planhigion sydd yn eu blodau am awr neu ddwy ar ôl y cyfnos. Mae ffrwythau goraeddfed yn denu gwyfynod hefyd.

2. Siwgro
Bydd gwyfynod yn heidio hefyd i neithdar gwneud o'r enw "siwgr". Twymwch ryw 500ml o gwrw coch (neu ddiod cola) mewn padell fawr a gadewch iddo ledferwi am bum munud. Wedyn toddwch ryw kilogram o siwgr brown tywyll i mewn iddo, a llond tun o driagl du. Lledferwch y cymysgedd am ddwy funud a gadael iddo oeri cyn ei drosglwyddo i gynhwysydd addas i'w gario allan. Argymhellir ychwanegu diferyn o rwm cyn ei ddefnyddio, ond nid yw'n angenrheidiol. Ychydig cyn iddi nosi, defnyddiwch frwsh i daenu'r cymysgedd ar foncyffion coed neu byst ffens, ar lefel eich llygaid. Chwiliwch am wyfynod â thortsh ar y "siwgr" yn ystod y ddwy awr gyntaf ar ôl iddi dywyllu.

3. Rhaffau gwin
Dull arall yn lle siwgro yw defnyddio cortyn trwchus neu ddefnydd fydd yn sugno hylif. Twymwch botelaid o win coch rhad mewn padell, toddwch kilogram o siwgr i mewn iddo ac, ar ôl iddo oeri, trochwch hydoedd un metr o'r cortyn neu'r defnydd wedi'i ddirdroi yn y cymysgedd. Taenwch y "rhaffau gwin" hyn dros ganghennau isel, llwyni neu ffensys ychydig cyn y cyfnos ac ewch yn ôl yn nes ymlaen gyda thortsh i weld a oes gwyfynod wedi cael eu denu atynt.

Isadain Ruddgoch ar raff win D.Green

www.mothscount.org

4. Golau
Mae'n ffaith hysbys bod gwyfynod yn cael eu denu gan oleuadau gyda'r nos, er nad yw'r rheswm am hyn yn amlwg. Gadewch olau ymlaen y tu allan neu yn y portsh ar ôl iddi nosi, a chwiliwch am wyfynod ar ffenestri wedi'u goleuo neu waliau a ffensys sydd dan olau. Mae bylbiau ynni isel yn denu gwyfynod ac yn well i'r amgylchedd. Mae hongian cynfas gwely gwyn â golau tortsh yn tywynnu arno'n gallu bod yn effeithiol hefyd. Bydd rhai gwyfynod yn dod i sefyll ar wydr ffenestr os gadewir y llenni ar agor, neu'n dod i mewn trwy ffenestr agored i ystafell oleuedig – ond er mwyn sicrhau mai gwyfynod yn unig sy'n dod i mewn, caewch y ffenestr cyn mynd i'r gwely!

5. Maglau golau
Y ffordd orau o weld llawer math o wyfynod yw defnyddio maglau arbennig ar gyfer dal gwyfynod. Mae magl a osodir ar noson drymaidd ym mis Gorffennaf/Awst yn gallu dal mwy na mil o wyfynod o hyd at gant o rywogaethau! Blwch yw magl gwyfynod yn y bôn, â lamp arbennig y tu fewn iddo a rhywle i'r gwyfyn glwydo neu guddio. Mae tri math cyffredin ar gael i'w prynu, am wahanol brisiau, a chan bob math ei fanteision a'i anfanteision – neu beth am adeiladu'ch magl eich hun? Mae gwybodaeth am faglau gwyfynod, cyflenwyr a dolenni cyswllt eraill, ar gael ar **www.mothscount.org**. Os ydych chi'n ystyried prynu magl, mae'n syniad da ichi edrych ar wefan Cyfrif Gwyfynod am newyddion am ddigwyddiadau cyhoeddus ynghylch gwyfynod, a manylion am grwpiau lleol sy'n ymwneud â gwyfynod, lle y gallwch chi weld gwahanol faglau'n cael eu defnyddio a gofyn i'r arbenigwyr am gyngor.

6. Dulliau eraill
Nid pob gwyfyn sy'n hedfan gyda'r nos nac yn dod at y goleuni, neithdar neu siwgr, felly ni fydd y dulliau hynny'n datgelu pob rhywogaeth sydd yn eich ardal. Rhowch gynnig ar chwilio am wyfynod sy'n hedfan yng ngolau dydd neu yn y gwyll, a'u dal mewn rhwyd. Efallai y byddwch yn dysgu mai gwyfyn yn wir yw'r hyn yr oeddech chi'n credu mai glöyn byw ydoedd! Fe allwch chi hela lindys hefyd wrth iddynt ymborthi ar blanhigion yn yr ardd.

Magl gwyfynod Robinson P.Pugh

Beth arall galla i ei wneud?
Mae Cyfrif Gwyfynod yn trefnu **Cyfrifiad Gwyfynod yr Ardd** yn ystod cyfnod byr bob haf, gan ganolbwyntio ar rywogaethau cyffredin sy'n hawdd i'w hadnabod. Gwahoddir pawb i gymryd rhan, a bydd y canlyniadau'n creu ciplun diddorol dros ben o'r bywyd gwyllt sydd yng ngerddi cefn pobl ledled gwledydd Prydain.

Mae Noson Genedlaethol Gwyfynod yn gyfle blynyddol i ddathlu gwyfynod a chofnodi gwyfynod, sy'n cael ei chynnal ar ddyddiad gwahanol bob blwyddyn. Cewch chwilio am wyfynod yn eich milltir sgwâr eich hun neu fynd i ddigwyddiad cyhoeddus ar Noson Genedlaethol y Gwyfynod.

Mae Cyfrif Gwyfynod hefyd yn trefnu nifer o ddigwyddiadau o gwmpas y wlad i helpu pobl i ddysgu mwy am wyfynod. Mae'r rhain yn cynnwys nosweithiau dal gwyfynod neu ddigwyddiadau yn y bore i archwilio'r hyn a ddaliwyd y noson gynt, a sesiynau gweithdy lle y gall dechreuwyr ddysgu am sut i adnabod gwahanol wyfynod a'u cofnodi (ac eraill i alluogi pobl sydd â rhywfaint o wybodaeth am wyfynod yn barod i ehangu eu sgiliau).

Mae'r digwyddiadau hyn i gyd yn rhad ac am ddim, ac yn agored i unrhywun sydd â diddordeb. Mae sefydliadau eraill hefyd yn trefnu digwyddiadau ynghylch gwyfynod y gallwch chi eu mynychu. Mae clwb gwyfynod lleol ym mhob ardal bron sy'n croesawu recriwtiaid newydd, ynghyd â Chofnodydd Gwyfynod swyddogol y Sir sy'n casglu gwybodaeth oddi wrth y "gwyfynwyr" lleol.

Ewch i **www.mothscount.org** i gael mwy o fanylion am Gyfrifiad Gwyfynod yr Ardd, Noson Genedlaethol y Gwyfynod, achlysuron lleol yn ymwneud â gwyfynod, clybiau gwyfynod, Cofnodwyr Gwyfynod a sut i gofnodi gwyfynod.

Lles Gwyfynod
- Gochelwch rhag cyffwrdd yn uniongyrchol ag adennydd gwyfynod gan ei bod hi mor hawdd i'w niweidio.
- Rhowch wyfynod mewn cynhwyswyr plastig neu wydr clir sych er mwyn eu harchwilio'n well.
- I symud gwyfynod i mewn i gynhwysydd, rhowch dap sydyn i'r peth y maent yn sefyll arno, neu codwch bob gwyfyn yn ofalus trwy osod pensil oddi tano.
- Rhowch un gwyfyn yn unig ym mhob cynhwysydd a gwnewch yn siwr ei fod yn gallu symud yn rhwydd y tu fewn.
- Os yw gwyfynod yn fywiog iawn yn y cynhwysydd, rhowch nhw mewn oergell neu flwch oeri am gyfnod byr i'w tawelu.
- Gellir cadw gwyfynod am ddiwrnod neu ddau mewn cynhwysydd yn yr oergell tra'ch bod chi'n ceisio adnabod y rhywogaeth.
- Rhyddhewch y gwyfynod mewn man lle na all adar eu gweld ymhlith llystyfiant tal neu drwchus, gyda'r cyfnos os oes modd.
- I atal adar rhag dod i aros o gwmpas y man lle rydych chi'n arfer denu neu ryddhau gwyfynod a'u bwyta:
  - Gwiriwch eich magl neu'ch ardal oleuedig gyda'r wawr (neu gorchuddiwch y magl â chynfas gyda'r wawr);
  - Cadwch adar draw trwy ddefnyddio neidr neu dylluan blastig;
  - Newidiwch eich safle rhyddhau gwyfynod yn rheolaidd.

www.mothscount.org

Butterfly Conservation Manor Yard East Lulworth Wareham Dorset BH20 5QP Ffôn: 01929 406009 nmrs@butterfly-conservation.org www.butterfly-conservation.org
Dyluniwyd gan nectarcreative 01942 681648.